# Rhys



Helo... o'r capsiwl amser.

Rhys ydw i. Dw i'n byw yng Nghymru yn 1533.



Dw i'n byw gyda Mam a Dad ar fferm fach. Ar y fferm mae chwe mochyn, tair buwch a llawer o ddefaid.
Mae'r anifeiliaid yn cysgu gyda ni yn y tŷ yn y nos achos mae lladron yn dwyn anifeiliaid weithiau.
Mae Mam yn gwneud menyn, caws a bara ac rydyn ni'n gwerthu'r menyn, y caws a'r bara yn y farchnad.







Dw i'n helpu Dad ar y fferm. Dw i'n helpu gyda'r anifeiliaid a dw i'n helpu yn yr ardd. Dw i'n hoffi helpu Dad ond dw i'n hoffi chwarae gyda ffrindiau hefyd.





Es i i'r farchnad gyda Dad ddoe. Roedd e'n hwyl achos gwelais i ffrindiau yno.

Pwy ydych chi?

| | |
|---|---|
| mochyn | pig |
| buwch | cow |
| defaid | sheep |
| lladron | thieves |
| dwyn | to steal |
| Gwelais i... | I saw... |